# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Iau 20 Medi 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Hugh Irving, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Andrew Thomas, Rhys Thomas, David Williams ac Emrys Wynne

Arsylwi: Cynghorydd Alan James

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Rheolwr Tîm: Diogelu (NT), Swyddog Comisiynu – Gwasanaethau Gofalwyr (CW), Cydlynydd Craffu (RhE) a Gweinyddwr Pwyllgor (SJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Mynegodd y Cynghorydd Emrys Wynne a’r Cynghorydd Joan Butterfield gysylltiad personol yn eitem rhif 5 ar y rhaglen – Adroddiad blynyddol diogelu oedolion yn Sir Ddinbych 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd 28 Mehefin 2018.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo a derbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2018 fel cofnod cywir.*

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH 1 EBRILL 2017 - 31 MAWRTH 2018

Yn absenoldeb yr Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Tîm: Diogelu ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych am y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018, yr oedd copïau ohono wedi’i gyhoeddi a’i ddosbarthu cyn cyfarfod y Pwyllgor.

Yn ystod ei gyflwyniad hysbysodd y Pennaeth Gwasanaeth yr aelodau fod yr adroddiad, ei fformat wedi'i ddiwygio yn unol ag awgrymiadau blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor, yn amlinellu'r gofynion deddfwriaethol yn ymwneud â diogelu, y gwelliannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chysondeb ac ansawdd y gwaith diogelu a'r prosesau sydd ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon diogelu a ddygwyd i sylw'r Cyngor, ynghyd â manylion nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn y sir yn ystod 2017-18. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, ac yn unol â'r duedd genedlaethol, roedd nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi cynyddu yn ystod 2017-18. Serch hynny, roedd y cynnydd o 8% yn 2017-18 o'i gymharu â 2016-17 yn sylweddol is na'r cynnydd o 48% a gofnodwyd yn 2016-17 o'i gymharu â 2015-16. Manylodd y Pennaeth Gwasanaeth ar y 'penawdau diogelu ar gyfer 2017-18' a restrwyd yn yr adroddiad yn cynghori aelodau, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) ar ansawdd cofnodion cyfarfodydd strategaeth a'u potensial i ddarparu llwybr archwilio digonol, bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud mewn perthynas â'r agwedd hon o'r gwaith, gyda chofnodion nawr yn cynnwys tystiolaeth o ganlyniadau ffurfiol a chynlluniau gweithredu gyda'r amserlenni cytunedig ar gyfer eu cwblhau.

Sicrhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgor nad oedd perfformiad y Cyngor yn erbyn yr unig ddangosydd perfformiad cenedlaethol (DP) yn ymwneud â diogelu oedolion - y nifer o ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith - a oedd yn 67% oedd y perfformiad 'gorau' na 'gwaethaf' yng Nghymru. Pwysleisiodd fod y dangosydd hwn yn cwmpasu pob agwedd ar ddelio â'r ymholiad, gan gynnwys casgliad yr holl dasgau gweinyddol a oedd yn dibynnu i raddau ar sefydliadau partner yn cwblhau eu gwaith papur a'u cyflwyno i'r Cyngor ar amser. Roedd yn bwysig deall hynny, er nad oedd perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'r DP yn ymddangos yn dda, blaenoriaeth y Cyngor oedd sicrhau diogelwch yr unigolyn diamddiffyn. Pe bai tystiolaeth i awgrymu bod unigolyn mewn perygl o unrhyw fath o niwed, byddai camau'n cael eu cymryd ar y diwrnod y daeth y dystiolaeth i'r amlwg. Cyn ymateb i gwestiynau'r aelodau, eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth y gofynion o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a goblygiadau posib y diwygiad a gynigiwyd ym Mesur newydd Galluedd Meddyliol y DU (Diwygiad) (MCA Bill) ar DoLS, a fydd yn eu gweld yn cael eu disodli gan gynllun o'r enw Trefniadau Diogelu Rhyddid. Roedd perfformiad Sir Ddinbych mewn perthynas â gweithgarwch DoLS yn ystod 2017-18 yn unol ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Ymhelaethodd hefyd ar amcanion allweddol y Cyngor mewn perthynas â diogelu oedolion ar gyfer y flwyddyn adrodd gyfredol.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Tîm: Diogelu y canlynol:

- cadarnhawyd bod cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a'i phrosesau cysylltiedig mewn perthynas â diogelu wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Derbyniwyd yn eang hefyd fod gwybodaeth gyhoeddus a chanfyddiad o'r hyn a oedd yn ymyrru ar fywyd person diamddiffyn a'u hawliau wedi arwain at gynnydd mewn atgyfeiriadau hefyd;
- cynghorwyd y gallai 'ansawdd' atgyfeiriad diogelu oedolion i'r Cyngor hefyd effeithio ar allu'r Awdurdod i gwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer 7 diwrnod gwaith ar gyfer cwblhau ymchwiliad, oherwydd os darperir gwybodaeth annigonol,

mae angen gwneud ymholiadau ychwanegol cyn i'r ymchwiliad ddechrau. Byddai unrhyw awgrym y bu gweithred droseddol wedi ei gwneud yn golygu bod yn rhaid i'r Heddlu gwblhau ei ymchwiliad cyn y gallai'r Cyngor orffen ei ymchwiliad. O ganlyniad, ni fyddai'r targed 7 diwrnod yn cael ei fodloni, yn enwedig mewn achosion cymhleth a'r rheiny a oedd yn cynnwys sefydliadau partner. Serch hynny, byddai camau diogelu wedi cael eu cychwyn i symud y person diamddiffyn allan o niwed pe bai unrhyw dystiolaeth gychwynnol yn awgrymu eu bod yn destun unrhyw fath o gamdriniaeth, er enghraifft, corfforol, meddyliol, emosiynol, ariannol ac ati;

- hysbyswyd yr aelodau fod y Cyngor wedi ymrwymo i wella perfformiad yn erbyn DP Llywodraeth Cymru (LlC) ac roedd yn awyddus i gwblhau 85% o ymholiadau a dderbyniwyd o fewn y targed 7 diwrnod gwaith, o'i gymharu â'r 67% presennol, a lle nad oedd hynny'n bosibl byddai'r mecanwaith cofnodi cadarn a sefydlwyd yn casglu'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio â'r DP. Roedd pob awdurdod yn cydnabod na fyddai modd cydymffurfio fyth â 100% o fewn y targed 7 diwrnod gwaith oherwydd cymhlethdodau a natur y gwaith dan sylw. Serch hynny, roedd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, gyda'i aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl asiantaethau sy'n delio â materion diogelu, yn ymrwymedig i wella perfformiad a hwyluso perthnasoedd gwaith gwell a chyflymach rhwng asiantaethau. Gyda'r amcan o wireddu'r uchelgais hon, roedd wedi cyhoeddi canllawiau i asiantaethau ar sut y gallent weithio gyda'i gilydd i wella perfformiad a sicrhau canlyniadau gwell i unigolion diamddiffyn sydd mewn perygl;
- cadarnhawyd, er bod un o'r astudiaethau achos a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn canolbwyntio ar honiad o gam-drin ariannol mewn perthynas ag 'Atwrneiaeth Arhosol', nad oedd y math yma o gam-drin yn fwy cyffredin yn y blynyddoedd diwethaf nag y bu rhai blynyddoedd yn ôl;
- sicrhawyd yr aelodau nad oedd y ffaith bod 'gweithwyr cyflogedig' yn cyfrif am 69% o'r unigolion a gafodd honiadau o gam-drin oedolion diamddiffyn wedi'u gwneud yn eu herbyn yn frawychus, gan fod 'gweithwyr cyflogedig' yn gweithio mewn gwasanaeth a reolir yn fanwl ac sydd â gweithdrefnau llym i'w dilyn os gwnaed honiad. Roedd y gweithwyr hyn ar adegau yn cefnogi eu cleientiaid mewn sefyllfaoedd agos felly roeddent mewn perygl o gael honiadau yn eu herbyn. Cafodd pob honiad ei ymchwilio'n drylwyr. Pe nodwyd patrymau o honiadau neu bryderon byddai Staff Comisiynu'r Cyngor yn rhoi statws pryderon cynyddol i'r darparwyr ac yn eu monitro'n agos. Hyd nes bod unrhyw ddiffygion wedi'u cywiro ni fyddai'r Cyngor yn rhoi preswylwyr newydd yn y sefydliadau hynny nac yn comisiynu unrhyw wasanaethau pellach gan y darparwr hwnnw;
- cadarnhawyd pe bai honiad o gam-drin yn erbyn gofalwr neu aelod o staff y darparwr gofal iechyd wedi cael ei brofi, byddai'r gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn eu gwahardd rhag cael eu cyflogi yn y sector gofal a gwasanaethau iechyd yn y dyfodol. Disgwylir i system gofrestru genedlaethol ar gyfer pob gweithiwr gofal gael ei lansio cyn bo hir. O dan y system hon, byddai unrhyw weithiwr gofal a oedd wedi cael honiadau o gam-drin wedi'u profi yn eu herbyn yn colli eu cofrestriad ac felly ni fyddent yn gallu cael eu cyflogi yn y sector yn ystod eu gwaharddiad cofrestru;
- cynghorwyd er na fyddai digon o arian ar gael er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni'r cyfan yr oedd am ei gyflawni, roedd mwy o adnoddau staff rŵan yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyflogwyd mwy o staff monitro ar gontractau ac

roedd timau'n gweithio gyda'i gilydd yn well mewn ymgais i ddiogelu preswylwyr diamddiffyn; a

- chadarnhawyd fod holl gartrefi preswyl neu nyrsio preifat ac awdurdod lleol yn cael eu harolygu'n rheolaidd ac yn drylwyr gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) a fyddai fel rhan o'r broses arolygu yn nodi unrhyw ddiffygion neu afreoleidd-dra, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â'u prosesau recriwtio.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***Penderfynodd y Pwyllgor:***

***(i)*** ***yn amodol ar yr arsylwadau uchod i gydnabod natur bwysig ymagwedd gorfforaethol tuag at ddiogelu oedolion sydd mewn perygl, a chyfrifoldeb y Cyngor i ystyried hyn fel maes blaenoriaeth allweddol a'i osod ochr yn ochr â'r ymrwymiad a'r arwyddocâd a roddir gan Sir Ddinbych i ddiogelu plant sydd mewn perygl;***
***(ii)*** ***bod adroddiadau blynyddol yn y dyfodol hefyd yn cynnwys astudiaethau achos lle na chafwyd canlyniadau boddhaol yn ychwanegol at y rhai y gwireddwyd canlyniadau boddhaol ar eu cyfer;***
***(iii)*** ***maes o law, bod Adroddiad Gwybodaeth, yn cael ei baratoi a'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor ar gynnwys y Mesur Galluedd Meddyliol (Diwygiad) a'i oblygiadau i'r Cyngor a phreswylwyr.***

Yn y fan hon (10.35 a.m.) cafwyd seibiant o 10 munud

Cafodd y cyfarfod ei ailymgynnull am 10.45 a.m.

**6 DARPARIAETH GOFAL SEIBIANT AR DRAWS SIR DDINBYCH**

Yn absenoldeb yr Aelod Arweiniol cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol adroddiad y Swyddog Comisiynu: Gwasanaethau Gofalwyr (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Roedd yr adroddiad, a ddarparwyd mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor, yn amlinellu darpariaeth ac argaeledd gwasanaethau seibiant i ddinasyddion Sir Ddinbych a oedd ag anghenion gofal a chymorth i alluogi eu gofalwyr i dderbyn cyfnodau o seibiant. Fel rhan o’u cyflwyniad bu i’r Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r Swyddog Comisiynu: Gwasanaethau Gofalwyr:

- egluro’r diffiniad o 'seibiant' yng nghyd-destun gofal cymdeithasol oedolion;
- rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth seibiant sydd ar gael i oedolion 18 oed a throsodd, a oedd yn cynnwys pobl hŷn a phobl ag anghenion corfforol a / neu ddysgu cymhleth;
- amlygu'r pwyslais a roddir ar ofalwyr ac anghenion gofalwyr yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 (Deddf GCLl (Cymru)) a'r cyfrifoldebau a roddir ar unigolion ac awdurdodau lleol o dan y Ddeddf i ddiwallu anghenion gofalwyr;
- amlinellu dull Sir Ddinbych tuag at fodloni gofynion y Ddeddf a chadw at ei ethos mewn perthynas â gwasanaethau gofalwyr; a
- rhoi trosolwg o'r heriau demograffig a chomisiynu a wynebir gan y Cyngor mewn ymgais i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol, ynghyd â

gwybodaeth am y gwaith sydd ar y gweill yn rhanbarthol mewn ymgais i ateb yr anghenion hynny trwy wasanaethau integredig cynaliadwy ledled Gogledd Cymru.

Roedd Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr tuag at gynorthwyo gofalwyr yn y sir hyd eithaf ei allu. Atgyfnerthwyd yr ymrwymiad hwn trwy ei gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, o dan y flaenoriaeth Cymunedau Gwydn, o uchelgais i "sicrhau bod pob gofalwr yn Sir Ddinbych yn cael cefnogaeth dda". Gyda'r bwriad o gyflawni'r nod hwn, lluniwyd Strategaeth Gofalwyr a chynllun gweithredu traws-wasanaeth i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn gallu adnabod gofalwyr a chefnogi eu hanghenion fel rhan o'u busnes bob dydd.

Gan ymateb i gwestiynau'r swyddogion:

- cynghorodd y swyddogion yr amcangyfrifwyd bod tua 11,600 o ofalwyr (o bob oed) ar draws y sir;
- cynghorodd y swyddogion nad oedd pob 'gofalwr' yn ystyried eu bod yn 'ofalwr', a bod nifer sylweddol o'r farn ei fod yn 'ddyletswydd' i ofalu am aelod o'r teulu. Nid oedd rhai o'r unigolion hyn am gael 'asesiad gofalwr' wedi'i wneud, ac roedd y Ddeddf yn glir na ddylai neb gael ei orfodi i gael asesiad gofalwr. Dyletswydd y Cyngor oedd gwneud darpariaeth ar gyfer asesiadau o'r fath ar gyfer y rhai a oedd am eu cael ac i hyrwyddo eu hargaeledd, argaeledd gwasanaethau gofalwyr ac ethos y Ddeddf i breswylwyr;
- cydnabuwyd gan y swyddogion nad oedd pob gofalwr yn fodlon ar y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, er gwaethaf hyn roedd nifer yn hynod o amharod i hysbysu'r Cyngor ynghylch y mathau o wasanaethau y byddent yn ddefnyddiol iddynt;
- pwysleisiodd y swyddogion nad oedd 'asesiadau gofalwyr' yn ymarferion llenwi ffurflenni mwyach, maent bellach yn canolbwyntio ar sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gyda'r gofalwr gyda'r bwriad o archwilio pa ganlyniadau a ddymunir ganddynt a'r ffordd orau o gyflawni'r canlyniadau hynny;
- cynghorodd y swyddogion nad oedd darpariaeth seibiant wedi'i gyfyngu i'r person 'sy'n derbyn gofal' yn gorfod mynd i gartref preswyl neu nyrsio am gyfnod penodol o amser, y gellid gofalu amdanynt mewn nifer o leoliadau gwahanol, gan gynnwys yn eu cartrefi eu hunain, darpariaeth gofal ychwanegol, gwasanaethau eistedd, gwasanaethau dydd. Rhestrodd Atodiad 3 yr adroddiad y modelau cyfredol o wasanaethau gofal seibiant sydd ar gael ledled Sir Ddinbych. Mae'r mathau o ddarpariaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael, gan gynnwys gwasanaethau hyblyg, wedi newid yn rheolaidd er mwyn bodloni dewisiadau a gofynion unigol;
- Cadarnhaodd y swyddogion bod grŵp rhanbarthol o swyddogion a rhanddeiliaid yn edrych ar hyn o bryd ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau seibiant ar gyfer pobl sy'n 'derbyn gofal' ag anghenion cymhleth, anghenion iechyd cymhleth yn bennaf. Yn gyffredinol, byddai'r Gwasanaeth Iechyd yn ariannu'r math hwn o wasanaethau seibiant o dan eu dyletswydd gofal o dan y Ddeddf;
- Sicrhaodd y swyddogion y Pwyllgor fod holl staff gofal cymdeithasol a gyflogwyd gan y Cyngor wedi cael hyfforddiant ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a'i gofynion mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dylai'r Bwrdd Iechyd hefyd fod wedi darparu hyfforddiant tebyg i'w staff mewn perthynas â'r Ddeddf;

- cynghorodd y swyddogion y byddai Aseswyr Gofalwyr yn defnyddio'r dull sgwrsio 'Beth sy'n Bwysig' ar gyfer asesu anghenion gofalwyr. Fodd bynnag, pe canfyddwyd bod anghenion y gofalwr yn fwy nag y gellid ei bennu'n effeithiol trwy ddefnyddio'r ymagwedd 'Beth sy'n Bwysig', gyda chaniatâd y gofalwr byddai Asesiad Cynllun Cymorth Gofalwyr manylach yn cael ei wneud;
- cynghorodd y swyddogion fod yr Asesiad Anghenion Gofal Cymdeithasol a Lles diweddaraf yng Ngogledd Cymru wedi amcangyfrif bod tua 10% o blant ysgol yn 'ofalwyr ifanc'. Fodd bynnag, roedd swyddogion o'r farn bod y gwir nifer o ofalwyr oedran ysgol yn uwch. Roedd gan Wasanaethau Addysg a Phlant y Cyngor brosesau ar waith i geisio nodi 'gofalwyr ifanc' drwy'r ysgolion gyda'r bwriad o sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gael iddynt i sicrhau bod eu canlyniadau addysgol a chymdeithasol yn cael eu cyflawni. Byddai adroddiad gwybodaeth yn benodol ar 'Ofalwyr Ifanc' yn cael ei lunio a'i ddosbarthu i'r Pwyllgor;
- cadarnhaodd y swyddogion fod y Cyngor, fel rhan o'i ymrwymiad Cynllun Corfforaethol, wrthi'n archwilio ffyrdd arloesol o gwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau cymorth gofalwyr er gwaethaf cyfyngiadau cyllidebol. Roedd y Gronfa Gofal Integredig (ICF) yn cynnwys elfen benodol o gyllid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr ac roedd Grant Gofalwyr ar wahân ar gael gan y Llywodraeth y gallai'r Cyngor ei ddefnyddio. Rhan o'r ymagwedd newydd at Wasanaethau Gofalwyr oedd y cysyniad teulu cyfan, a oedd yn golygu bod teulu'r un sy'n derbyn gofal a theulu agos y gofalwr yn rhan o'r asesiad gyda'r bwriad o sicrhau bod y ddarpariaeth yn cwrdd ag anghenion pawb ac yn cefnogi'r uned deuluol;
- cadarnhaodd y swyddogion bod deddfwriaeth yn gorfodi awdurdodau lleol i adnabod anghenion gofalwyr ac i gefnogi diwallu'r anghenion a nodwyd;
- cynghorodd y swyddogion, er bod y Cyngor wedi cytuno i ddiogelu'r gyllideb gofal cymdeithasol yn erbyn unrhyw doriadau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20, byddai'r Gwasanaeth yn dal i fod yn gorfod cwrdd â chostau chwyddiant a chynnydd cyflog staff o fewn y gyllideb a ddyrannwyd;
- cynghorwyd fod nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn gyson iawn â gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gofal cymdeithasol yn y dyfodol, sef cefnogi a galluogi unigolion i gyflawni canlyniadau gwell a byw'n annibynnol gyhyd â phosibl. Roedd y modelau seibiant a restrir yn Atodiad 3 yr adroddiad yn adlewyrchu anghenion amrywiol gofalwyr a'r rhai y gofalwyd amdanynt. Roedd y mathau o ddarpariaeth seibiant a oedd ar gael ac a gomisiynwyd yn newid yn rheolaidd wrth i'r sgwrs asesu ganolbwyntio ar anghenion y gofalwyr, eu canlyniadau dymunol a sut y gellid bodloni'r canlyniadau hynny. Roedd rhan o'r sgwrs honno'n cynnwys archwilio pa adnoddau oedd ganddynt yn ariannol ac o fewn eu cymuned i wireddu'r canlyniadau dymunol;
- cadarnhaodd y swyddogion fod nifer y llefydd gwag mewn cartrefi gofal yn y sir (Atodiad 5 yr adroddiad) yn amrywio'n rheolaidd;
- cadarnhawyd bod 'gofal seibiant' yn y gorffennol wedi cynnwys y person 'sy'n derbyn gofal' yn mynd i ofal preswyl neu nyrsio am gyfnod penodol o amser. Nid hyn oedd yr achos mwyach, er y gallai'r 'un sy'n derbyn gofal' fynd i gartref preswyl neu nyrsio am gyfnod o seibiant os oeddent yn dymuno, roedd amrywiaeth o fathau eraill o wasanaethau seibiant ar gael yn y gymuned i gwrdd â'u hanghenion gofal nhw ac anghenion eu gofalwyr;

- cynghorwyd bod argaeledd gwasanaethau cymunedol, megis yr un a weithredir gan wirfoddolwyr yng Nghapel y Waen ger Llanelwy, yn cael ei redeg yn dda gyda llawer yn ei fynychu. Er bod y Cyngor yn darparu taliad grant blynyddol i'r gweithredwyr, roedd yn sylweddol is na'r hyn y byddai'n costio i'r Cyngor weithredu gwasanaeth tebyg;
- cynghorodd y swyddogion pe bai sefyllfa argyfwng yn codi mewn perthynas â gofalwr a / neu'r person yr oeddent yn gofalu amdanynt, byddai'r Cyngor yn ymateb ar unwaith. Er na allai warantu y gallai'r person sy'n derbyn gofal neu'r gofalwr dderbyn y gwasanaethau a ddymunir ar unwaith, byddai'r person 'sy'n derbyn gofal' yn cael eu hanghenion wedi'u diwallu fel mater o frys a byddai'r gwasanaethau a ddymunir yn cael eu darparu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl;
- cadarnhaodd y swyddogion, er bod gan ofalwyr yr hawl i dderbyn 'asesiad gofalwr' ac i anghenion a nodwyd gael eu diwallu, roedd yn rhaid i'r person sy'n derbyn gofal hefyd roi caniatâd i ofal arall gael ei ddarparu ar eu cyfer; a
- rhoddwyd trosolwg o'r polisi codi tâl cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynghori na allai'r Cyngor godi tâl o fwy na £80 yr wythnos ar unigolyn nad oedd mewn gofal preswyl parhaol am y gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir iddynt. Gosodwyd y ffigwr £80 yr wythnos yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Dosbarthwyd dolen gyswllt i wefan ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor i weld polisi codi tâl gofal cymdeithasol y Cyngor.

Cyn cwblhau'r drafodaeth, llongyfarchodd y Cadeirydd y swyddogion ar y daflen wybodaeth 'Cyllidebau Cymorth' (Atodiad 2 i'r adroddiad) a oedd ym marn y Pwyllgor yn glir iawn ac yn hawdd ei ddefnyddio. Ar ran y Pwyllgor, diolchodd hefyd i'r Swyddog Comisiynu: Gwasanaethau Gofalwyr am ei hymroddiad i ofalwyr yn y sir ac am ei gwasanaeth i'r Cyngor a dymunodd y gorau iddi yn ei hymddeoliad.

***Penderfynodd*** y Pwyllgor yn amodol ar yr arsylwadau uchod i **–**

***(i)*** ***gydnabod ystod ac argaeledd gwasanaethau seibiant a ddarperir yn Sir Ddinbych i gefnogi unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, a'u Gofalwyr, yng nghyd-destun deddfwriaeth gyfredol a newidiadau demograffig;***

***(ii)*** ***parhau i gefnogi a hyrwyddo datblygu cefnogaeth i Ofalwyr er mwyn i Wasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych fodloni ei rwymedigaethau statudol mewn perthynas â Gofalwyr, ac i gefnogi'r Cyngor wrth gyflawni ei flaenoriaeth gorfforaethol o ddatblygu cymunedau gwydn;*** **a**

***(iii)*** ***gofyn am i Adroddiad Gwybodaeth gael ei baratoi a'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor sy'n manylu ar nifer y gofalwyr ifanc hysbys ledled y sir ac yn amlinellu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt trwy Addysg a Gwasanaethau Plant a gwasanaethau eraill y Cyngor, ynghyd â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn gorfforaethol gyda'r bwriad o gefnogi gofalwyr ifanc yn unol â'r uchelgais a osodir yn y Cynllun Corfforaethol a chanfod gofalwyr ifanc 'cudd' i gynnig cefnogaeth briodol a digonol iddynt.***

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am adolygiad yr Aelodau o raglen waith y Pwyllgor a darparu diweddariad ar faterion perthnasol.

Roedd copi o "ffurflen gynnig yr Aelodau" wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynydd Craffu bod unrhyw gynigion yn cael eu cyflwyno iddi hi. Roedd Rhaglen Waith I'r Dyfodol y Cabinet wedi'i gynnwys fel Atodiad 3, roedd y tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor, gan gynghori ar y cynnydd a wnaed gyda'u gweithredu, ynghlwm fel Atodiad 4.

Cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu fod cyfarfod pwyllgor arbennig wedi'i drefnu ar gyfer 1 Hydref 2018. Atgoffwyd yr aelodau y byddai cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn bresennol i ateb cwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Ward Tawel Fan. Gofynnodd yr aelodau am i ddolen gyswllt i'r adroddiadau blaenorol gael ei hanfon atynt cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol yn amodol ar yr uchod.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Ni chodwyd unrhyw adborth gan gynrychiolwyr pwyllgorau.

Cymerodd y Cynghorydd Emrys Wynne y cyfle i groesawu'r Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones yn ôl fel Cadeirydd yn dilyn ei habsenoldeb.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau am eu dymuniadau a diolchodd i'r Cynghorydd Emrys Wynne am oruchwylio rôl y Cadeirydd yn ystod y misoedd diwethaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.